

maes awyr a Gorsaf y Rhws. Pan oedd Prif Gynllun Maes Awyr Caerdydd yn cael ei ddatblygu, ystyriwyd llinell reilffordd gangen ychwanegol i Faes Awyr Caerdydd. Ystyriwyd dau opsiwn ond penderfynwyd peidio â mynd ar drywydd y rhain ar y pryd oherwydd costau a'r galw a ragwelwyd ymhlith teithwyr. Nid yw llinell reilffordd gangen uniongyrchol i Faes Awyr Caerdydd yn y dyfodol wedi cael ei gwrthod yn llwyr, ond bydd effaith COVID-19 a'r ffocws newydd ar adfer y galw am ddefnyddio'r maes awyr ymhlith teithwyr yn parhau'n flaenoriaeth am yr ychydig flynyddoedd nesaf.

8. Ein Gweledigaeth ar gyfer y Sector Hedfan

Fel rhan o Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, rydym yn ymrwymedig i gynnal gallu'r sector hedfan yng Nghymru, oherwydd y manteision y mae'n eu cynnig i economi Cymru yn ei chyfanrwydd, a hefyd gydnabod yr heriau y mae hyn yn eu creu o ran cyflawni ein targedau ar ddatgarboneiddio. Rydym yn cydnabod y tyndra polisi anodd rhwng bod yn berchen ar faes awyr a'i helpu i dyfu a ffynnu, a hefyd fynd i'r afael ag effaith newid yn yr hinsawdd ar yr un pryd.

Dros y pum mlynedd nesaf, byddwn yn:

- datblygu Maes Awyr Caerdydd fel y gall teithwyr o Gymru hedfan o faes awyr sy'n agosach i'w cartref
- gweithio gyda Llywodraeth y DU a menter Jet Zero, yn ogystal â Maes Awyr Caerdydd, i leihau effeithiau amgylcheddol hedfan
- helpu Maes Awyr Caerdydd i adfer yn sgil effaith COVID-19 ar fusnesau a'r diwydiant ehangach
- ymgysylltu â meysydd awyr yn y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill i wella cysylltedd rhanbarthol i Gymru fel rhan o'r broses gynllunio ranbarthol
- parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU ar godi'r gwastad yn benodol i Gymru o ran polisi hedfan i'r DU gyfan, gan gynnwys parhau i ddadlau o blaid datganoli'r Ardoll Teithwyr Awyr i Gymru a thrwy gyflwyno gwasanaethau hedfan Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus newydd
- parhau i ystyried cyfleoedd i gael gwell cysylltiadau rhwng Caerdydd a Chymru a gweddill y DU ac Ewrop.

***Llywodraeth Cymru
Hydref 2021***